Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Santes Helen
# Twtil
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 1PF

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Santes Helen

Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol Santes Helen yw'r unig ysgol Gatholig yng Nghymru sy'n addysgu'n benodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Lleolir hi yn ardal Twtil yn nhref Caernarfon o fewn awdurdod lleol Gwynedd.

Mae 92 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 8 oed meithrin rhan amser. Fe'u rhennir yn 4 dosbarth oed cymysg. Mae 39% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac mae 17% o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae tua 14% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol. Mae'r ysgol wedi adnabod 28% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers 2004. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

# Crynodeb

Mae Ysgol Santes Helen yn ysgol hapus a gofalgar gydag ethos cryf o gynhwysiant yn treiddio drwyddi. Mae ymddygiad disgyblion yn dda a dangosant barch at ei gilydd ac eraill. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn.

Mae'r addysgu'n dda ac mae gan y disgyblion gyfleoedd eang i gwblhau gweithgareddau cyffrous sy'n cymell eu diddordeb a'u brwdfrydedd i ddysgu. Mae'r cymhorthyddion yn cefnogi'r athrawon yn dda o fewn a thu allan i'r dosbarth i ddiwallu addysg fuddiol i'r disgyblion.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir y mae hi'n ei rhannu'n effeithiol gyda'i thîm. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac mae'r athrawon yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol trwy arwain meysydd penodol o fywyd a gwaith yr ysgol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach yr ardal allanol ar gyfer y cyfnod sylfaen

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i herio pob disgybl yn effeithiol

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Tra yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol heb y Gymraeg ac ychydig iawn heb Saesneg chwaith. Serch hynny, maent yn caffael yr iaith Gymraeg yn gynnar iawn ac mae eu medrau llafar yn datblygu'n gadarn yn fuan. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn amryw sefyllfaoedd. Maent yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd, ac maent yn sgwrsio a thrafod eu gwaith yn frwdfrydig ac yn barchus. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafaredd yn llwyddiannus yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n dda at drafodaethau, gan fynegi eu barn yn glir ac yn aeddfed.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau darllen da. Maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth ffonolegol yn effeithiol yn y dosbarthiadau ifancaf a defnyddiant y wybodaeth er mwyn adeiladu geiriau yn llwyddiannus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn datblygu'n ddarllenwyr rhugl a hyderus. Mae medrau darllen llawer o'r disgyblion yn datblygu'n fedrus ar draws cyfnod allweddol 2. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn darllen gyda rhuglder ac aeddfedrwydd yn y ddwy iaith. Maent yn medru siarad yn fyrlymus am eu nofelau ac maent yn medru caffael gwybodaeth yn fedrus mewn llyfrau gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cynnwys a'r mynegai yn effeithiol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau, er enghraifft mewn portread o Sion y Cawr a llythyr at Sion Corn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n gadarn ar eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Mae ganddynt ymwybyddiaeth eang o nodweddion nifer o ffurfiau ysgrifennu gwahanol, gan ddefnyddio eu gwybodaeth i ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion mwyaf abl yn medru dewis geirfa ddiddorol ac maent yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r gynulleidfa, er enghraifft wrth ysgrifennu bwletin tywydd i blant Lesotho neu lythyr adref o ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf o safbwynt milwr ifanc.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Maent yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus, er enghraifft pan fyddant yn dosrannu rhifau yn gannoedd, degau ac unedau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, arian, amser a thrin data. Mae gan y mwyafrif yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o werth lle, a gallant ddefnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Mae mwyafrif o'r disgyblion hŷn yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth mewn amrywiol bynciau ar draws y cwricwlwm, fel graff llinell mewn gwyddoniaeth i ddangos effaith pwysau cynyddol ar hyd sbring. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau heriol yn eu gwersi mathemateg, er enghraifft cost trwsio Cantre'r Gwaelod yn dilyn storm.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn medru mewnbynnu gwybodaeth i fas data elfennol gyda chymorth. Gallant reoli tegan rhaglenadwy yn annibynnol. Erbyn Blwyddyn 2, gall y rhan fwyaf fewnbynnu data syml i greu graff bar o'r wybodaeth. Gyda chymorth, gallant ddefnyddio app i greu adroddiad tywydd ar fideo trwy ddefnyddio sgrîn werdd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn parhau i wneud cynnydd da ar draws cyfnod allweddol 2. Maent yn defnyddio pecynnau prosesu geiriau yn llwyddiannus i gyflwyno'u gwaith. Maent yn creu cyflwyniadau effeithiol i ddangos gwaith ymchwil ar suddo ac arnofio ac maent yn medru creu basau data effeithiol,er enghraifft i gofnodi nifer a mathau'r badau achub ar y Titanic a niferoedd y bobl a achubwyd o bob rhan o'r llong.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus ac yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ac maent yn manteisio ar y cyfleoedd i ymuno â gweithgareddau amrywiol sydd ar gael yn yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau o staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae gan bron pob un o'r disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ac ar yr iard yn dda. Maent yn gwrtais, yn ofalgar, ac yn dangos parch at ei gilydd. Mae arwyddair yr ysgol, sef 'Câr dy gymydog', i'w weld yn glir mewn agweddau'r disgyblion tuag at eraill. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn frwdfrydig i ddechrau tasgau. Mae gan ran fwyaf ohonynt agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn gallu dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau unigol ac yn gwybod sut i wella eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus a moesol. Maent yn dangos hyder a gwydnwch yn eu bywyd yn yr ysgol ac wrth ryngweithio gydag eraill. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn siarad yn frwdfrydig am y cyfleoedd maent yn eu cael i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu. Mae barn y disgyblion yn cael ei hystyried trwy waith y cynghorau dosbarth ac ysgol, ond prin yw'r dystiolaeth o'r effaith mae hyn wedi ei chael ar fywyd yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson. Fodd bynnag, dros gyfnod o bedair blynedd, mae canran presenoldeb yr ysgol wedi parhau i fod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg, er gwaethaf ymdrechion yr ysgol i wella hyn.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn dda. Mae nodweddion gorau'r addysgu yn seiliedig ar her uchel a chyson a disgwyliadau uchel gan yr athrawon. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu llwyddiannus fel rheol, sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn ymgymryd yn llwyr â'u dysgu. Maent yn ennyn diddordeb y disgyblion yn y gwersi. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn defnyddio cwestiynau agored er mwyn ymestyn a datblygu

ymatebion y disgyblion ymhellach, er mwyn eu herio ac i ddarganfod yr hyn maent yn ei ddeall. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr athrawon, y cymorthyddion a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Mae hyn yn annog parch a chwrteisi, ac yn ychwanegu at yr ethos o deulu a chynhwysiant drwy'r ysgol.

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, a phrofiadau a heriau cyffrous i'w disgyblion, sydd fel arfer yn cymell diddordeb y disgyblion a'u brwdfrydedd i ddysgu. Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws y cyfnod sylfaen. Mae'r staff yn cydymffurfio ag egwyddorion y cyfnod sylfaen ac mae hyn yn datblygu medrau annibyniaeth yn y disgyblion yn gynnar iawn. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh y disgyblion trwy gyfrwng themâu a phrofiadau dysgu diddorol. Defnyddia'r staff ardaloedd y dosbarth yn dda i annog y disgyblion i ymchwilio ac i ddefnyddio eu medrau ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft yn eu gwaith ar y Gryffalo. Er hyn, nid yw'r ardaloedd allanol wedi eu datblygu'n ddigonol i ddarparu cyfleoedd addysgu buddiol i'r disgyblion yn yr awyr agored.

Yn gyffredinol, mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau mewn amrywiaeth o dasgau. Ar frig yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gael mewnbwn i'r hyn y maent yn ei ddysgu, sydd yn cymell eu diddordeb ac yn eu hannog i ymroi i'w dysgu. Maent yn cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg y disgyblion yn gadarn trwy ystod o themâu a gweithgareddau sy'n adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn effeithiol. Yn yr arfer orau, mae cyflwyniadau pwrpasol yn ennyn diddordeb y disgyblion, yn plethu nifer o elfennau'r cwricwlwm mewn tasgau diddorol ac yn eu hysgogi i gyfrannu yn y gwersi. Yn yr ychydig weithgareddau sydd ddim mor effeithiol, nid yw lefel yr her na'r disgwyliadau'n ddigon uchel i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae athrawon yn defnyddio gweithdrefnau asesu llwyddiannus wrth roi adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig i ddisgyblion. Mae ymateb ysgrifenedig i waith disgyblion yn syml ac yn effeithiol. Mae'n rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar beth sydd yn dda yn eu gwaith a beth sydd angen ei wella, er enghraifft drwy'r defnydd o strategaethau 'pinc yn plesio a gwyrdd i wella'. Darperir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion drafod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen sylw.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae'r staff yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn gynnes a chroesawgar a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Caiff manteision byw yn iach a datblygu iechyd corfforol y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm, ac mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i ddangos parch at eraill. Mae'r sesiynau cydaddoli pwrpasol, a'r cyfnodau myfyrio, yn cyfrannu'n

werthfawr tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol y disgyblion.  Mae pwyslais mawr ar feithrin gwerthoedd fel tegwch, cyfiawnder a goddefgarwch.  Mae hyn yn hybu'r disgyblion i ystyried sut y gallent helpu eraill, er enghraifft trwy gymharu bywyd plentyn y dyddiau yma gyda bywyd plentyn yn Oes Fictoria.

Mae gan yr ysgol systemau priodol i adnabod ac olrhain cynnydd disgyblion.  Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio a dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys profion safonedig.  Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o'r canlyniadau i drefnu rhaglenni cynhwysfawr o gefnogaeth i ddisgyblion sydd angen cymorth neu hwb ychwanegol.  Mae cymorthyddion dosbarth yn cefnogi disgyblion yn effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys trwy'r defnydd o raglenni ymyrraeth.  Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth emosiynol neu gymdeithasol.

Mae trefniadau da i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r disgyblion sydd angen cymorth yn cael eu hadnabod yn gynnar.  Mae cynlluniau addysg unigol clir ac mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion, er enghraifft y gwasanaeth iaith a lleferydd.  Mae barn y rhieni yn cael ei hystyried wrth bennu targedau ac mae'r cynlluniau unigol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Nid yw pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar beryglon radicaleiddio, yn unol â pholisi'r ysgol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar sicrhau cymuned ddysgu gynhwysol, lle rhoddir blaenoriaeth uchel i safonau a lles disgyblion.  Mae ganddi adnabyddiaeth dda o'r ysgol ac mae'n rhannu'r weledigaeth yn effeithiol gyda'r disgyblion, staff, y rhieni ac aelodau'r corff llywodraethol.  O ganlyniad, mae'r holl staff a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu cynhwysol, diogel a gweithgar ar gyfer y disgyblion.

Mae gan bob aelod o staff dealltwriaeth gadarn o'u rolau ac maent yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod y ddarpariaeth, deilliannau a lles disgyblion.  Maent yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau pellach drwy weithredu nifer o strategaethau pwrpasol, fel gwella medrau ysgrifennu Cymraeg a medrau TGCh disgyblion.  Mae'r athrawon yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol trwy arwain meysydd penodol o fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy arwain ar lythrennedd ar draws yr ysgol ac wrth gymryd cyfrifoldeb am y cyfnod sylfaen.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion, yn ogystal â datblygu medrau arweinyddiaeth yr athrawon yn effeithiol.  Mae hyn hefyd yn sicrhau bod cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn cael eu rhannu'n effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r athrawon wedi cydweithio'n effeithiol gyda'r corff llywodraethol er mwyn sefydlu gweithdrefnau sicrhau ansawdd cadarn.  Mae cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod aelodau'r corff yn derbyn gwybodaeth gyson gan y pennaeth a'r staff, gan gynnwys cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun gwella.  O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol sy'n eu galluogi i gefnogi ac i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus.  Mae is-bwyllgorau, fel y

pwyllgor datblygu ysgol, yn cyfrannu’n werthfawr iawn tuag at gyfeiriad strategol yr ysgol trwy ymgymryd â gweithgareddau rheolaidd. Er enghraifft, maent yn cydweithio â’r pennaeth a’r staff i arsylwi ar wersi, craffu ar lyfrau a siarad â disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt drosolwg clir am y safonau a’r ddarpariaeth.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau buddiol ar gyfer hunanarfarnu elfennau pwysig o’r ddarpariaeth a safonau. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ddadansoddi data perfformiad, canfyddiadau monitro gwersi a chraffu ar lyfrau wrth arfarnu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella. Mae’r pennaeth ynghyd â chadeirydd y llywodraethwyr yn sicrhau bod yr holl staff a llywodraethwyr yn cael eu cynnwys yn y broses hunanarfarnu. Er braidd yn ddisgrifiadol mewn mannau, mae’r ddogfen hunanarfarnu yn bwrpasol ac yn cynnig darlun gonest a chywir o’r ysgol. Mae cyswllt addas rhwng deilliannau’r adroddiad hunanarfarnu â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’r cynllun hwn yn canolbwyntio’n gadarn ar wella safonau ac yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir. Mae'n cynnwys amserlenni synhwyrol a meini prawf priodol i fesur eu heffeithiolrwydd.

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwysedig i ddiwallu’r cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn manteisio ar arbenigeddau staff yn briodol; er enghraifft, mae arweinydd y cyfnod sylfaen yn defnyddio’i harbenigedd i arwain maes TGCh ar draws yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff effeithiol yn eu lle, sy’n gosod amcanion clir i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau. O ganlyniad, mae’r holl staff yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu’n broffesiynol yn unol â’u hanghenion a blaenoriaethau’r ysgol. Yn ogystal, mae’r ysgol yn annog ac yn cefnogi staff i ymgymryd â chyrsiau allanol er mwyn gwella’u medrau a’u dealltwriaeth ymhellach. Er enghraifft, mae tair cymhorthydd wedi cwblhau cyrsiau israddedig ac mae dwy wedi dychwelyd i’r ysgol fel athrawon cymwysedig.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yn effeithiol. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion sy'n deilwng i’w dderbyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2018